# NewsLine

Tach 2013 Rhifyn 123

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

www.caerffili.gov.uk





# Diolch am eich adborth

**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi derbyn cefnogaeth gadarn oddi wrth bobl leol am ansawdd y gwasanaethau rydym yn darparu.**

Ym mis Mehefin eleni, cynhaliwyd 'Arolwg Cartrefi' ar raddfa eang yn gofyn i drigolion am eu barn ar ystod o wasanaethau rheng flaen, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, addysg, ailgylchu, priffyrdd a diogelwch cymunedol.

Gan gymryd popeth i ystyriaeth, **roedd 82% o'r ymatebwyr yn fodlon ar y gwasanaeth cyffredinol a ddarperir gan y cyngor.** Mae hyn wedi cynyddu o 77% yn 2011 ac yn rhagori ar darged y cyngor ei hun ar gyfer 2013 o 78%.



Dywedodd y Cynghorydd Harry Andrews, Arweinydd Cyngor Caerffili, "Mae'r canlyniadau hyn yn gadarnhaol iawn ac yn dangos yn glir bod pobl leol yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau a ddarperir gan ein gweithlu rhagorol. Mae gwelliannau wedi'u gwneud mewn sawl maes o'u cymharu â chanlyniadau Arolwg Cartrefi 2011, a byddwn yn awr yn adeiladu ar y data hyn i wneud gwelliannau pellach."

Mae'r gwasanaethau a nodwyd bod ganddynt lefelau uchel o foddhad gan y cyhoedd yn cynnwys sbwriel ac ailgylchu, parciau a mannau chwarae, llyfrgelloedd, hamdden, dysgu, canol trefi lleol, gwasanaethau bws a chylchlythyr y cyngor sef 'Newsline'.

Mae'r problemau mwyaf yr oedd ymatebwyr yn teimlo oedd yn effeithio ar ymddangosiad eu strydoedd yn cynnwys baw cŵn, sbwriel/cronni gwastraff, cyflwr palmentydd/llwybrau cerdded a thramwyfeydd a chwyn a gordyfiant.

Cyfanswm yr ymatebion i Arolwg Cartrefi 2013 oedd 2,280 a chafodd rhain eu cyflwyno trwy gymysgedd o holiaduron trwy'r post ac ar-lein. Bydd y canlyniadau yn cael eu defnyddio gan yr awdurdod i'w bwydo i mewn i'w Gynllun Gwella Corfforaethol. Bydd y data hefyd yn helpu pennu blaenoriaethau a ffurfio gwasanaethau yn y dyfodol.

**Gweler tudalen 2 am fwy o ganlyniadau o'r arolwg.**






# Canlyniadau Arolwg Cartrefi cadarnhaol

## Mae canfyddiadau allweddol yr Arolwg Cartrefi 2013 yn cynnwys:

- Gan gymryd popeth i ystyriaeth, roedd 82% o'r ymatebwyr yn fodlon ar y gwasanaeth cyffredinol a ddarperir gan y Cyngor. Mae hyn wedi cynyddu o 77% yn 2011 ac yn rhagori ar y targed yn y Cynllun Gwella ar gyfer 2013 o 78%.



- Roedd 82% o'r ymatebwyr yn fodlon ar eu cymdogaeth a 62% â'u canol tref lleol ar gyfer siopa, gwelliant ers 2011.



- Roedd lefelau uchel o foddhad gyda gweithgareddau hamdden, dysgu a diwylliannol, yn benodol, bu cynnydd sylweddol mewn boddhad gyda llyfrgelloedd a pharciau a mannau chwarae ers 2011.



- Bu gwelliant ers 2011 yng nghyfran yr ymatebwyr a oedd yn teimlo bod ansawdd bywyd yn eu cymdogaeth a chanol y dref leol wedi gwella yn ystod y 12 mis diwethaf.

- Roedd lefelau uchel o foddhad gyda'r rhan fwyaf o agweddau y gwasanaeth bws lleol, gyda boddhad gyda'r cyflwr yr arosfannau / cysgodfannau bysiau yn dangos cynnydd sylweddol ers 2011.






- Mae lefelau uchel iawn o foddhad gyda phob agwedd o ailgylchu a gwasanaethau gwastraff.



- Roedd y mwyafrif llethol o ymatebwyr yn cytuno bod Newsline yn ffynhonnell ddefnyddiol o newyddion a gwybodaeth ac maent yn cael eu derbyn yn rheolaidd.



### Eich Newsline


*"Cynhyrchir Newsline gan y cyngor i ddod â'r newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf atoch o ar draws y fwrdeistref sirol. Rydym yn awyddus i glywed eich sylwadau am y cyhoeddiad a byddwn yn croesawu unrhyw adborth. Cysylltwch â fi os oes unrhyw ymholiadau gennych am y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn Newsline a byddaf yn danfon eich sylwadau ymlaen at yr adran berthnasol.* ***Cofiwch*** *- cewch fersiynau sain a phrint bras o Newsline ar gais."*

**Stephen Pugh - Golygydd** **e-bost:** pughs@caerffili.gov.uk **Post:** Uned Gyfathrebu, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG.

# CYFNODAU ANODD I DDOD

**Mae'r lleihad arwyddocaol yn y dyraniad cyllid eleni oddi wrth Lywodraeth Cymru yn golygu bod cynghorau ar draws Cymru yn paratoi ar gyfer cyfnodau anodd i ddod.**

Cyflwynodd y Gweinidog Cyllid Jane Hutt ei datganiad cyllid y mis diwethaf, gan gyhoeddi toriad o 5.81% i'r llywodraeth leol fel rhan o'r ymgyrch am effeithlonrwydd cyffredinol. Cafodd Caerffili 3% o leihad ar gyfer 2014/15 sy'n cyfateb i £14.5 miliwn o doriadau'r flwyddyn nesaf (£28 miliwn dros y 3 blynedd nesaf).



Mae Arweinydd Cyngor Caerffili, Cyng. Harry Andrews, yn awyddus i sicrhau fod pobl leol yn ymwybodol o faint y toriadau a'r effaith ddifrifol byddent yn eu cael ar wasanaethau'r cyngor.

"Mae'n bwysig fod trigolion yn deall faint o her sydd o'n blaenau dros y misoedd nesaf," dywedodd Cyng Andrews. "Bydd rhaid i ni wneud rhai penderfyniadau anodd iawn ac yn bosib rhai amhoblogaidd yn dilyn y cyhoeddiad cyllideb anodd tu hwnt hwn.

Byddwn yn gweithio'n galed i amddiffyn swyddi a gwasanaethau blaenllaw, ond mae'n debygol iawn y bydd rhaid i ni golli nifer o wasanaethau nad ydynt yn hanfodol er mwyn amddiffyn cyllidebau allweddol fel addysg a gwasanaethau cymdeithasol.




Er bod y sefyllfa yn un heriol iawn, mae Caerffili mewn sefyllfa dda o gymharu â nifer o awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru ac mae hyn yn rhannol oherwydd y strategaeth ariannol a fabwysiadwyd gan y cyngor dros y blynyddoedd diwethaf."

Bydd cynghorwyr yn ystyried ystod o opsiynau arbedion dros yr wythnosau nesaf cyn cytuno ar y cyllid manwl yn y Flwyddyn Newydd.

**www.caerffili.gov.uk**

## Mynwentydd Destlus

**Mae'r cyngor yn awyddus i atgoffa trigolion am ei 'Bolisi Lawnt', sydd yn anelu at sicrhau bod ymddangosiad y beddau mewn mynwentydd o dan reolaeth y cyngor yn gyson ac yn addas.**

Yn dilyn pryderon trigolion bod eitemau heb awdurdod fel goleuadau solar, clychseiniau gwynt, addurniadau a ffensio yn cael eu gosod ar rai beddau, mae'r cyngor wedi dechrau gorfodi ei 'Bolisi Lawnt' dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Gwelodd y dull gweithredu hwn wrthwynebiad oddi wrth deuluoedd anwyliaid a gladdwyd ym Mynwent Bedwellte ynglŷn â'r ffordd yr oedd yn rheoli'r polisi a chytunodd y cyngor i adolygu'r dull gweithredu. Penderfynwyd, fodd bynnag, yn dilyn yr adolygiad hwn, y byddai'r polisi yn parhau i gael ei weithredu ym mhob mynwent o dan reolaeth y cyngor.

Cyn bo hir cynhelir archwiliadau ym mynwent Gelligaer, ac os yn briodol, bydd llythyron yn cael eu hanfon i berthnasau yn y flwyddyn newydd, yn gofyn yn barchus iddynt symud unrhyw eitemau heb awdurdod a fydd yn cael eu nodi.

Dywedodd y Cyng. David Poole, " Rydym yn deall yn iawn bod hwn yn fater emosiynol dros ben, ond rydym yn credu'n gadarn y dylai mynwent fod yn lle o fyfyrio tawel mewn algylchoedd urddasol wedi'u cadw'n dda."

## Llyfrgell Caerffili a Chanolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid

**Mae'r cyfri wedi dechrau i agoriad y Llyfrgell a Chanolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid newydd trawiadol yng nghalon canol tref Caerffili.**

Mae'r adeilad trawiadol, a leolir yn Sgwâr Y Twyn, yn dirnod allweddol yn barod yn y dref a bydd yn cynnig lot mwy na llyfrau i'r bobl leol. Bydd trigolion yn gallu cael mynediad at ystod o wasanaethau er enghraifft cymorth gyda cheisiadau budd-daliadau tai, gwneud cais am fathodynnau parcio i bobl anabl a rhoi gwybod am geudyllau a.y.y.b.

"Mae'r llyfrgell yn gyfleuster a fydd yn cael ei rannu gyda Chanolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid, sy'n golygu bydd trigolion yn cael mynediad at ystod o wasanaethau'r cyngor o dan un to," dywedodd Cyng. Rhiannon Passmore, Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. "Rydym wedi gwneud buddsoddiad arwyddocaol yn ein darpariaeth llyfrgell dros y blynyddoedd diwethaf a'r datblygiad hwn yw'r diweddaraf mewn rhestr nodedig o gyfleusterau newydd sydd wedi agor ar draws y fwrdeistref sirol ym Margod, Rhisga, Trecelyn, Aberbargod ac Abercarn."



Mae'r adeilad 3 llawr cyfoes yn cynnwys 1,100 metr sgwâr o le cyhoeddus, wedi ei ddylunio i weddu i'r amgylchedd hanesyddol ac mae'r llawr uchaf yn darparu golygfeydd syfrdanol o Gastell Caerffili a chanol y dref.

### Bydd rhai o'r cyfleusterau fydd ar gael yn cynnwys:

- **Opsiwn 'Hunanwasanaeth' cyfleus**
- **Desg arian ar gyfer talu biliau'r cyngor**
- **Mynediad am ddim i fwy na 40 cyfrifiadur**
- **Dewis o ystod o 40,000 o lyfrau**
- **Llyfrgell gyffrous i blant**
- **Lolfa ar wahân ar gyfer plant yn eu harddegau**
- **Man amgueddfeydd yn cynnwys casgliadau hanesyddol**
- **Ardaloedd darllen ac ymlacio**
- **Ystafelloedd cyfarfod a chyfleusterau cymunedol**
- **Wi-Fi Am Ddim**

Mae Llyfrgell a Chanolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Caerffili i fod i agor wythnos gyntaf mis Ionawr. Fe wnaeth Llyfrgell bresennol Caerffili gau ar Dachwedd 16eg a bydd Swyddfa Arian Caerffili yn cau ar 3ydd Ionawr.

**Am fwy o wybodaeth ewch i www.caerffili.gov.uk**



# Canolfan flaenllaw yn tynnu tua'r terfyn

**Mae cam adeiladu Canolfan Integredig Iechyd a Gofal Cymdeithasol Rhymni bron yn gyflawn, a thenantiaid yn barod i symud i mewn dros yr ychydig wythnosau nesaf.**

Bydd y Ganolfan yn cynnal gwasanaethau iechyd oddi wrth Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan a gwasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir gan y cyngor.

Bydd y gwasanaethau yn cynnwys dwy feddygfa meddyg teulu, practis deintyddol, optegydd, 12 gwely claf mewnol yn yr Ystafell Redwood, 'Oakland' - sef Canolfan Cyfleoedd Dydd y Cyngor, a fferyllfa gymunedol. Bydd clinigau cleifion allanol hefyd yn cael eu symud i'r Ganolfan, felly'n arbed amser teithio ar gyfer cleifion.

Bydd y ganolfan hefyd yn darparu lleoliad ar gyfer Nyrsys Ardal, Nyrsys Ysgol, Ymwelwyr Iechyd, Tîm Iechyd y Meddwl Cymunedol, y Tîm Asesu Pobl Hŷn a'r tîm Gwasanaethau Plant. Bydd y dull arloesol hwn yn dod â'r timau hyn at ei gilydd am y tro cyntaf gan ganiatáu ymagwedd wirioneddol integredig tuag ag Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r gymuned leol wedi bod yn rhan o'r broses ers cychwyn y datblygiad ac wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau fel penderfynu ar y lleoliad y Ganolfan a phleidleisio ar ei enw.

Dywedodd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, David Jenkins "Rydym i gyd yn edrych ymlaen yn fawr iawn am y datblygiad hwn. Mae cael ystod o wasanaethau mewn un lleoliad yn rhoi sylfaen gadarn iawn ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol."

Dywedodd y Cynghorydd Robin Woodyatt, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, "Mae gwaith wedi symud ymlaen yn eithaf cyflym ar y cyfleuster newydd gwych hwn, a fydd yn helpu i wella capasiti'r gwasanaethau cymunedol presennol a dwyn ynghyd nifer o dimau iechyd a gofal cymdeithasol o dan un to."

## Rhoi Teuluoedd yn Gyntaf

**Mae diogelu plant a phobl ifanc yn barhaus ar flaen agenda'r cyngor, gyda nifer o brosiectau sy'n gweithio o dan Raglen Teuluoedd yn Gyntaf, yn cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.**



Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglen arloesol wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru, sydd yn anelu at gefnogi teuluoedd yn y fwrdeistref sirol sy'n byw, neu sydd mewn perygl o fyw, mewn tlodi. Mae'r rhaglen yn mynd i'r afael ag anawsterau a heriau sy'n wynebu plant, pobl ifanc a'u teuluoedd trwy ddatblygu gweithredu effeithiol aml asiantaeth a phartneriaeth, sy'n canolbwyntio ar ataliad ac ymyriad cynnar.

Mae model Tîm o Amgylch y Teulu yn un o'r prosiectau o dan Raglen Teuluoedd yn Gyntaf, sydd yn cydnabod bod pob teulu yn wahanol y mae angen ei ystyried yn ei gyfanrwydd; bydd yr hyn sy'n effeithio ar un aelod o'r teulu yn cael effaith ar y bobl eraill yn y teulu.

Mae dull gweithredu TAT yn gweld partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn helpu teuluoedd ag anghenion sy'n dod i'r amlwg, trwy gyfnodau o anhawster er mwyn cyflawni canlyniad gwell i'r teulu cyfan. Bydd y tîm sy'n cymryd rhan yn y broses yn aml yn cynnwys pobl broffesiynol o nifer o asiantaethau, gwasanaethau cymorth cymunedol a theulu estynedig sy'n cynorthwyo plant, pobl ifanc a'u teuluoedd gyda phroblemau fel camddefnyddio sylweddau; ymddygiad gwrthgymdeithasol; cymorth rhianta ac iechyd gwael.

Dywedodd y Cyng Robin Woodyatt, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, "Mae diogelu plant a phobl ifanc o'r pwys mwyaf i'r cyngor ac rydym yn deall mai gweithio gyda rhieni, gofalyddion a theuluoedd y plant hyn yw'r ffordd orau i sicrhau eu bod yn cael eu diogelu."

**Ewch i dudalen gwefan Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf am ragor o wybodaeth www.caerffili.gov.uk**

Teuluoedd yn Gyntaf – Families First | Ariennir gan Lywodraeth Cymru – Funded by Welsh Government | Team Around the Family

# Arian i'w hennill i wella cymunedau lleol

**Gall grwpiau cymunedol ym mwrdeistref sirol Caerffili wneud cais am grantiau cyfalaf o hyd at £5,000 allan o Gronfa Gwella'r Gymuned.**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi neilltuo £50,000 y flwyddyn, dros gyfnod o bum mlynedd, i ddarparu grantiau i gefnogi grwpiau cymunedol wrth gyflwyno prosiectau a mentrau lleol.

Bydd y Gronfa Gwella'r Gymuned yn cefnogi prosiectau sy'n cyfrannu'n uniongyrchol tuag at nod y cyngor o drawsnewid cartrefi, bywydau a chymunedau, ac i un neu fwy o'r blaenoriaethau Cymunedau yn Gyntaf canlynol: datblygu cymunedau ffyniannus, cymunedau sy'n dysgu a chymunedau iachach.

Mae amrywiaeth eang o brosiectau y gellid eu cefnogi drwy'r Gronfa Gwella'r Gymuned. Gallai prosiectau gynnwys, er enghraifft:

- Gwella golwg ystadau
- Mentrau garddio cymunedol
- Ardaloedd chwarae
- Gweithgareddau sy'n dod â chymunedau at ei gilydd

Mae'r gronfa wedi ei sefydlu fel rhan o raglen y Cyngor Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), a fydd yn gweld tua £200 miliwn yn cael ei wario yn ystod y chwe blynedd nesaf i wella cartrefi tenantiaid y cyngor ar draws y fwrdeistref sirol. I wneud cais neu am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Owain Morgan ar **01443 805588** neu drwy anfon e-bost morgao@caerffili.gov.uk.



# Cracer Nadolig llawn digwyddiadau!

**Mae tymor y Nadolig ar fin cychwyn, ac mae'r cyngor unwaith eto eleni yn cynnig rhaglen ysblennydd o ddigwyddiadau'r Nadolig.**

Yn dechrau'r dathliadau ar **ddydd Sadwrn 30ain Tachwedd** a **dydd Sul 1af Rhagfyr** mae **Marchnad Nadolig Coed Duon**. Bydd digon i'w weld ac i'w wneud, gan gynnwys stondinau marchnad, arddangosfeydd anifeiliaid, canu carolau, ogof Siôn Corn a hyd yn oed reidiau asynnod, yn ogystal ag adloniant stryd a gweithgareddau crefft i'r teulu cyfan.




Yn ystod ail wythnos Rhagfyr, bydd yr hwyl yn parhau gyda **Ffair Nadolig Canol Oesoedd Caerffili** flynyddol ar **ddydd Sadwrn 7fed** a **dydd Sul 8fed Rhagfyr** yng nghanol tref Caerffili. Bydd stondinau bwyd a chrefft wedi'u gosod mewn rhes ar hyd y stryd fawr a muriau'r castell, gyda dros 120 o fasnachwyr o safon yn arddangos eu nwyddau.



Ar **ddydd Sadwrn 7fed Rhagfyr**, bydd **Bargod** hefyd yn ymuno yn y dathliadau. Bydd y **Farchnad Nadolig** yn rhoi sylw arbennig i reidiau ffair hwyl, stondinau bwyd a chrefft, crefftau i blant, theatr stryd a llawer mwy o weithgareddau cyffrous.



Bydd **Llawr Sglefrio Iâ** poblogaidd **Bargod** yn dychwelyd i Faes parcio Santes Gwladys am ei gyfnod naw diwrnod o **ddydd sadwrn 7fed i ddydd Sul 15fed Rhagfyr**. Mwynhewch sesiynau sglefrio iâ am £3 y pen yn unig.

Bydd **Rhisga** yn cyflwyno ei **Marchnad Nadolig** ym Mharc Tredegar ar **ddydd Sadwrn 14eg Rhagfyr**, gyda llawer o bethau yn digwydd o gwmpas y parc, gan gynnwys ei gorymdaith lusernau flynyddol.



I orffen y dathliadau mae **Gorymdaith Lusernau Afon Oleuni** flynyddol Caerffili ar **ddydd Iau 19eg Rhagfyr** am 6.30pm yn cychwyn o faes 'Parcio a Theithio' gorsaf drenau Caerffili. Dewch i weld y strydoedd yn dod yn fyw wrth i gannoedd o lusernau raeadru trwy ganol tref Caerffili i gyfeiliant drymio samba, dawnsio, perfformwyr mewn gwisgoedd a llawer mwy.

Bydd **Gweithdai Gwneud Llusern ar gyfer yr Afon Oleuni** yng Nghanolfan Hamdden Caerffili ar 30ain Tachwedd/1af Rhagfyr, 7fed/8fed Rhagfyr a 14eg/15fed Rhagfyr.

Am restr lawn o ddigwyddiadau'r Nadolig ar draws y fwrdeistref sirol, neu am wybodaeth bellach,
**ewch i www.caerffili.gov.uk/ynadolig neu ffoniwch 029 20 88 00 11**

# Cynllun Cerdyn Disgownt y Nadolig yn dychwelyd

**Bydd y cynllun cerdyn disgownt y Nadolig 'Mannau Unigryw' poblogaidd yn dychwelyd eto y Nadolig hwn ar ôl lansiad llwyddiannus llynedd.**

Bydd y cynllun, sy'n cael ei redeg gan Dîm Rheoli Canol Trefi Caerffili, yn rhedeg rhwng y 7fed – 24ain Rhagfyr gan gynnig cymhelliad mawr i siopwyr i wario yn lleol mewn siopau annibynnol a chadwyni cenedlaethol mewn canolau trefi ar draws bwrdeistref sirol Caerffili. I adwerthwyr yn y trefi sy'n cael eu rheoli gan y fwrdeistref sirol, sef Caerffili, Coed Duon, Bargod, Rhisga ac Ystrad Mynach, mae'r fenter yn cynnig cyfle gwerthfawr i ddenu cwsmeriaid lleol gyda chynigion bendigedig ac yn darparu cymorth marchnata.




Eleni bydd siopwyr yn gallu mynd ar wefan Mannau Unigryw sy'n dal fersiwn electronig o'r cerdyn disgownt ynghyd â rhestr o gynigion arbennig ym mhob un o'r trefi.

Dywedodd Cyng Ken James, Aelod Cabinet dros Adfywio, Cynllunio a Datblygu Cynaliadwy, "Rwyf yn falch iawn fod y Cerdyn Disgownt Nadolig Mannau Unigryw yn dychwelyd diolch i lwyddiant lansiad llynedd. Mae'r cynllun hwn nid yn unig yn galluogi ein trigolion i gael y gwerth gorau ond yn bwysig ei fod yn cefnogi ein manwerthwyr lleol ac annibynnol." Bydd manwerthwyr sy'n cymryd rhan yn arddangos poster seren yn y ffenestr yn hysbysebu eu bod nhw'n rhan o'r cynllun.

Gall siopwyr gael mynediad i'r cerdyn disgownt ar-lein, neu godi cerdyn o nifer o leoliadau gan gynnwys manwerthwyr sy'n cymryd rhan, Canolfannau Cwsmeriaid yn Gyntaf, llyfrgelloedd ac atyniadau twristiaeth sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor.

**Am fanylion pellach cysylltwch â Thîm Rheoli Canol Trefi ar 01443 866213/01443 866393 neu ewch i www.uniqueplacesoffer.co.uk**

**Canol Trefi - Mannau Unigryw**

# PEIDIWCH Â BOD YN GYMYDOG SWNLLYD

**'Byddwch yn gymydog da a chadwch y sŵn i lawr' - dyna'r apêl sydd gan y Cyngor mewn ymgais i fynd i'r afael â chymdogion swnllyd.**

Gall Cymdogion swnllyd achosi niwsans i'r rhai sy'n byw o'u cwmpas. Mae'r Cyngor yn gallu cymryd camau yn erbyn trigolion sy'n gwneud sŵn gormodol ac yn anwybyddu rhybuddion i reoli uchder y sŵn yn dod o'u heiddo.

Os yw'r problemau'n parhau bydd swyddogion Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor yn gallu ymweld ag eiddo i archwilio'r sŵn annerbyniol, byddant yn gallu cyflwyno hysbysiad ffurfiol, erlyn, atafaelu a hyd yn oed dinistrio'r eitemau troseddu. Gallai cymdogion swnllyd hefyd cael dirwy o hyd at £5,000.

Llynedd, derbyniodd Adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor gyfanswm o 1,100 o gwynion am sŵn yn ymwneud ag eiddo domestig preifat, ac mae dros hanner y cwynion hyn yn ymwneud â cherddoriaeth uchel.

Yn gynharach eleni, cafodd un o drigolion Caerffili ddirwy o dros £1,000 am achosi niwsans sŵn drwy wylio ei deledu/ei theledu mor uchel fel y gallai'r teledu gael ei glywed yn glir yn yr eiddo cyfagos.



Yn Nhrelyn cafodd cyfarpar stereo ei gipio o fflat un ystafell wely, ac mae'r eitemau troseddu wedi cael eu dinistrio neu eu hailgylchu erbyn hyn.

Dywedodd Cyng David Poole, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol a Hamdden, " Mae yna gamsyniad gall cerddoriaeth cael ei chwarae ar unrhyw lefel hyd nes 11pm, ond nid yw hynny'n wir. Nid oes unrhyw adegau penodol lle gall y sŵn gormodol fod yn dderbyniol. Gall cerddoriaeth uchel fod yn gymaint o broblem yng nghanol y prynhawn fel y gall fod yn broblem yng nghanol y nos.

"Mae pobl yn aml yn synnu bod y Cyngor yn gallu defnyddio gwarant i atafaelu offer mwyhau sŵn fel setiau teledu, stereos, seinyddion, chwaraewyr DVD a chonsolau gemau os ydynt yn achosi niwsans sŵn. Gallai'r eitemau hyn gael eu colli am byth os yw gorchymyn dinistrio yn cael ei roi gan yr ynadon."

"Nid atal pob sŵn yw ein bwriad, ac yr ydym yn deall bod pobl yn dymuno cael parti neu ddathlu nawr ac yn y man, ond sicrhewch fod lefelau sŵn yn isel fel na fyddant yn cael effaith negyddol ar eiddo cyfagos os gwelwch yn dda."

*Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd Rob Hartshorn a Chyng David Poole, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymunedau a Hamdden, yn helpu i ddinistrio seiniau oedd tu ol i achos niwsans sŵn.*

**Os ydych am wneud cwyn am niwsans sŵn, ffoniwch 01443 866544 neu ewch i www.caerffili.gov.uk am fanylion pellach.**

## Cael defnydd da o feiciau wedi eu torri

**Mae cynllun arloesol i adfer beiciau ar gyfer y gymuned leol, sy'n cynnwys pobl ifanc yn ymgymryd ag oriau 'gwneud iawn' cymunedol gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid lleol, wedi dechrau'n dda.**

Mae'r prosiect 'Sied Feiciau' wedi ei gyllido gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Saffach a rhedir gan Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Caerffili mewn partneriaeth â Heddlu Gwent.

Bwriad y prosiect yw i bobl ifanc ddefnyddio'r oriau gwneud iawn cymunedol i atgyweirio ac ailgylchu hen feiciau wedi eu rhoi, a fydd wedyn yn cael eu rhoi i deuluoedd haeddiannol sydd wedi eu dewis trwy wasanaethau cymdeithasol, y Gwasanaeth Troseddau Ifanc neu Heddlu Gwent.

Dywedodd y Cyng. Robin Woodyatt, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, "Mae'r prosiect hwn yn enghraifft wych o sut gall gweithio mewn partneriaeth ac oriau 'gwneud iawn' wir fuddio'r gymuned."

Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ar hyn o bryd yn chwilio am gyfraniadau o hen feiciau, sydd yn gallu cael eu defnyddio ar gyfer prosiect y Sied Feiciau. Ffoniwch **01495 235625** am wybodaeth bellach.

## Croeso i'r ysgol gyfrwng Cymraeg newydd

**Agorodd 'Y Gwindy' -sef campws newydd yng Nghwm Rhymni, Caerffili - ei ddrysau y mis diwethaf ac mae'r disgyblion yn ymgartrefu'n dda yn eu hamgylchoedd newydd.**

Bydd yr ysgol fodern a gafodd ei datblygu ar hen safle Sant Ilan, yn ehangu darpariaeth addysg gyfrwng Cymraeg y fwrdeistref sirol yn ardal basn Caerffili.

Ym mis Medi dechreuodd y derbyniad cyntaf o 85 o ddisgyblion Blwyddyn 7 o Ysgol Ifor Bach, Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell ac Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili, dderbyn eu haddysg gyfun yn y campws newydd. Bydd myfyrwyr o ysgolion cynradd Cymraeg eraill y fwrdeistref sirol yn parhau i astudio yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn Nhrelyn.




Ychwanegodd Cyng Rhianon Passmore, Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, "Mae'n amser cyffrous i'r disgyblion yma, sydd yn elwa o'r datblygiad newydd bendigedig hwn. Mae'n wych i weld hen ysgol segur yn cael ei throi yn gyfleuster addysgol bywiog fydd yn trawsnewid addysg gyfrwng Cymraeg yn ein bwrdeistref sirol."

Gobeithir bydd y gwaith ar ddatblygiad Sant Ilan wedi'i gwblhau erbyn Medi 2015, pan fydd y safle yn darparu ar gyfer anghenion dysgu plant 3-16, mewn campws o'r radd flaenaf gan gynnwys canolfan hamdden newydd, gwerth £10.5 miliwn y bydd yr ysgol a'r gymuned ehangach yn elwa ohoni.

Bydd darpariaeth ar gyfer 900 o lefydd ysgol gyfun yn cael ei chreu trwy'r datblygiad, ochr yn ochr ag adleoliad Ysgol Gynradd Gymraeg Caerfilli i'r safle. Bydd hefyd gyfle i gynnig addysg 16+ ychwanegol, gyda safle Trelyn presennol yn dod yn brif gampws 16-19.

# Cymorth a chyngor i denantiaid lleol

**Mae Swyddogion Cymorth Tenantiaid (SCT) y cyngor yn gweithredu ar draws bwrdeistref sirol Caerffili yn darparu cefnogaeth werthfawr a chyngor i denantiaid y cyngor.**

Mae'r tîm o 4 SCT wrth law i helpu pobl leol i ddeall effaith y ddeddfwriaeth newydd - y Ddeddf Diwygio Lles a thaliadau tanddeiliadaeth er enghraifft. Maent hefyd yn darparu cyngor ac arweiniad ynglŷn â budd-daliadau a materion eraill yn ymwneud â thai.

Dros y misoedd diwethaf, maent wedi ymweld â thros 1,200 o denantiaid yn eu cartrefi ac yn gwneud gwahaniaeth mawr trwy dawelu meddyliau a chefnogi pobl leol.

"Does dim byd sy'n rhoi mwy o foddhad na gwybod eich bod chi wedi gwneud gwahaniaeth a chyfraniad cadarnhaol i fywyd tenant" meddai SCT Sherell McLaughlan. "Rydyn ni wedi sylwi bod llawer o ddryswch a phryder ynghylch y newidiadau amrywiol i'r system budd-daliadau felly mae hi'n bwysig iawn ein bod ni'n cael y cyfle i gael sgwrs gyda'r tenantiaid a helpu ateb eu cwestiynau."



Mae Kathryn ac Ida yn fam a merch sy'n byw yn ardal Rhymni ac mae'r ddwy ohonynt yn dentantiaid y cyngor. Yr oedd Kathryn mewn ôl-ddyledion oherwydd tanddeiliadaeth, ond gyda help y SCT mae hi erbyn hyn ar y trywydd iawn, ac yn derbyn budd-daliadau nad oedd hi'n ymwybodol y gallai hi eu hawlio.

Dywedodd Kathryn, "Cyn i mi gael help Cymorth i Denantiaid, roeddwn i o dan straen a byddwn yn effro yn y nos, yn poeni am sut roeddwn i'n mynd i dalu fy miliau. Diolch byth, mae popeth wedi'i setlo erbyn hyn ac rwy'n cael aros yn fy nghartref. Rwy'n teimlo fel bod pwysau wedi cael eu codi oddi ar fy ysgwyddau, ac rwy wedi bod yn dweud wrth bawb sy'n cael trafferth i ddal dau ben llinyn ynghyd am roi galwad i'r tîm."

Mae Ida, mam Kathryn, yn byw yn ei chartref ers dros 20 mlynedd, ond oherwydd y taliad tanddeiliadaeth, nid yw hi'n gallu fforddio aros yno ragor. Mae hithau hefyd wedi derbyn help y SCT.

"Does dim ots gyda fi symud achos fy mod i'n gwybod byddai teulu yn gallu elwa o fyw yma mewn lle mwy," meddai Ida. "Mae'r SCT wedi fy help i i gael telerau gwell ar gyfer fy nwy a fy nhrydan, ac wedi fy helpu i i gwblhau ffurflenni i gael Cymorth Dŵr Cymru. Mae hyn yn golygu bod yr arian gyda fi nawr i dalu'r taliad tanddeiliadaeth felly dydw i ddim yn poeni am ôl-ddyledion yn cynyddu nad ydw i'n gallu fforddio'u talu. Rydw i'n gobeithio symud i dŷ llai yn fuan."



**Mae'r gefnogaeth a ddarperir gan Swyddogion Cymorth Tenantiaid y cyngor yn cynnwys:**

- Derbyn cymorth i ddeall y taliad tanddeiliadaeth a newidiadau lles eraill.
- Derbyn cymorth i chi wneud penderfyniad ynghylch a ydych eisiau symud neu aros yn eich cartref.
- Derbyn help i ymrestru ar y cynllun cyfnewid cydfuddiannol 'Cyfnewid Cartrefi' a chofrestru ar restr trosglwyddo'r cyngor.
- Derbyn cymorth wrth adnabod budd-daliadau ychwanegol y gallwch fod yn gymwys i'w cael.
- Cael help gyda cheisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn.
- Derbyn cymorth wrth gwblhau ffurflenni.
- Cyfeirio i'r Ganolfan Byd Gwaith am gefnogaeth ychwanegol.
- Arweiniad ynghylch arbed ynni a mesurau eraill y gallwch fod yn gymwys i'w derbyn, gan gynnwys Disgownt Cartrefi Cynhesach a Chymorth Dŵr Cymru.
- Trefnu apwyntiadau ar gyfer cyngor ar ddyled ac arian yng Nghanolfannau Cyngor ar Bopeth.
- Derbyn cymorth wrth gael mynediad i fanciau bwyd.

**Am ragor o wybodaeth ffoniwch 01495 235600**
**Tenantiaid y Cyngor tecstiwch RENTHELP i 81400**
**Tenantiaid eraill tecstiwch HOUSUPPORT i 81400**

# Digwyddiad Pen-blwydd i Dŷ Clyd

**Mae Gwasanaeth Gwelyau Asesu sydd wedi'i leoli yn Nhŷ Preswyl y Cyngor Tŷ Clyd, Bargod, wedi dathlu ei ben-blwydd cyntaf yn ddiweddar.**

Mae'r gwasanaeth yn darparu cyfle i bobl hŷn ac oedolion clwyfadwy, sydd wedi bod yn sâl neu wedi bod yn yr ysbyty dros gyfnod o amser, neu sydd wedi dioddef problemau gofal neu anawsterau yn y cartref, adennill eu hannibyniaeth ac ail adeiladu eu hyder, gyda'r amcan eithaf o allu dychwelyd i'w cartrefi.

Cynhaliodd preswylwyr a staff ddigwyddiad dathliadol yn ddiweddar, mewn cydnabyddiaeth o flwyddyn gyntaf lwyddiannus y Gwasanaeth Gwelyau Asesu. Mae'r digwyddiad yn dilyn ymweliad diweddar i'r cyfleuster gan Weinidog Llywodraeth Cymru, Lesley Griffiths, a wnaeth sylw am ba mor hapus oedd hi gyda'r gwasanaethau a ddarperir.

Fel rhan o'r Gwasanaeth Gwelyau Asesu, mae pobl broffesiynol yn gweithio gyda defnyddwyr i asesu eu hanghenion a dod i benderfyniad ar y cyd ynglŷn ag a yw dychwelyd adref yn bosibl, neu a fyddai gofal neu lety preswyl yn fwy addas. Gellir defnyddio gwelyau asesu dros gyfnod mor fyr ag ychydig o ddiwrnodau, neu hyd at chwe wythnos.

Dywedodd y Cyng Robin Woodyatt, "Mae Gwasanaeth Gwelyau Asesu Tŷ Clyd yn gyfleuster bendigedig, sydd yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth i sicrhau eu bod yn derbyn gwasanaeth wedi'i deilwra sy'n cynnig y sgiliau neu'r gofal maen nhw angen. Rydym wedi cael canlyniadau cadarnhaol iawn ar gyfer preswylwyr sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth hwn yn Nhŷ Clyd ac sydd wedi elwa'n fawr o'r cymorth sydd ar gael i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder. Rwy'n siŵr bydd ymrwymiad y staff yn Nhŷ Clyd yn helpu'r gwasanaeth i barhau i fynd o nerth i nerth.

**Am fanylion pellach am y Gwasanaeth Gwelyau Asesu, ffoniwch 0808 100 2500 neu ewch i www.caerphilly.gov.uk**





# Useful Numbers / Rhifau Defnyddiol

| | |
|---|---|
| **MAIN SWITCHBOARD** PRIF SWITSFWRDD ☎ 01443 815588 | **Children's Social Services** Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant ☎ 0808 100 1727 |
| **Minicom** Minicom ☎ 01443 873626 | **Consumer Advice** Cyngor i Ddefnyddwyr ☎ 01495 235111 |
| **Emergency number for all services:** Rhif argyfwng ar gyfer pob gwasanaeth: ☎ 01443 875500 (Out of hours only • Allan o Oriau yn unig) | **Council Tax Enquiries** Ymholiadau Treth y Cyngor ☎ 01443 863002 |
| **Adults' Social Services** Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ☎ 0808 100 2500 | **Furniture Recycling** Ailgylchu Dodrefn ☎ 01685 846830 |
| **StreetPride** BalchderStryd ☎ 01443 866566 | **Housing & Council Tax Benefits** Budd-daliadau Tai/Treth y Cyngor New Claims: Hawliau Newydd: 01443 866567 Existing Claimants: Hawlwyr Presennol: 01443 864099 |

# Christmas Refuse & Recycling Collections
# Casgliadau Ailgylchu a Sbwriel y Nadolig

| Normal collection Day / Diwrnod casglu arferol | Revised Collection Day / Diwrnod Casglu Diwygiedig |
|---|---|
| **December Rhagfyr** | |
| Mon 23rd ○ Llun 23ain | Normal collection ○ Casgliad arferol |
| Tues 24th ○ Maw 24ain | Normal collection ○ Casgliad arferol |
| Wed 25th ○ Mer 23ain | Thurs 26th ○ Iau 26ain |
| Thurs 26th ○ Iau 26ain | Fri 27th ○ Gwe 27ain |
| Fri 27th ○ Gwe 27ain | Sat 28th ○ Sad 28ain |
| Mon 30th ○ Llun 30ain | Normal collection ○ Casgliad arferol |
| Tues 31st ○ Maw 31ain | Normal collection ○ Casgliad arferol |
| **January Ionawr** | |
| Wed 1st ○ Mer 1af | Thurs 2nd ○ Iau 2il |
| Thurs 2nd ○ Iau 2il | Frid 3rd ○ Gwe 3ydd |
| Fri 3rd ○ Gwe 3ydd | Sat 4th ○ Sad 4ydd |

*Your local Civic Amenity sites will be closed on Christmas Day, Boxing Day and New Years Day. Public Conveniences will also be closed on these days.*

*Bydd eich safleoedd Mwynder Dinesig lleol ar gau ar Ddydd Nadolig, Gŵyl San Steffan a Dydd Calan. Bydd cyfleusterau cyhoeddus hefyd ar gau ar y diwrnodau hyn.*



# What's ON / Digwyddiadau

**www.caerphilly.gov.uk/events • www.caerffili.gov.uk/digwyddiadau**

Sign up to receive regular information about local events by e-mailing: events@caerphilly.gov.uk • Cofrestrwch i dderbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau lleol drwy e-bostio: digwyddiadau@caerffili.gov.uk

## Christmas Yule Tide Logs • Digwyddiadau Boncyffion Nadolig
**30/11 & 1/12 - 10am - 4pm**
*Cwmcarn Forest Visitor Centre • Canolfan Ymwelwyr Coedwig Cwmcarn*

*Create your own Yuletide log using natural woodland materials & some added Christmas sparkle. A fantastic Christmas decoration. Charge: £3 per child. Booking required (5 sessions per day).*

*Crëwch eich boncyff Nadolig eich hunan o ddeunyddiau naturiol ag ychydig o befriad y Nadolig. Addurn Nadolig bendigedig. Cost: £3 y plentyn. Mae angen cadw lle (5 sesiwn y dydd).*

**01495 272001**

## Stute Comedy Night • Noson Gomedi y Stiwt
**6/12 - 8pm**
*Blackwood Miner's Institute • Sefydliad y Glowyr Coed Duon*

*This great value night features three top comedians touring the UK circuit. Join the comedy e-list at www.blackwoodminersinstitute.com or follow us on Facebook to hear the latest line-ups as soon as they're announced.*

***BOOK EARLY – EVERY MONTH IS A SELL-OUT!***

*TICKETS: **£8.00** In Advance/ **£11.00** On The Door.*

*Mae'r noson 'werth eich arian' hon yn rhoi lle amlwg i dri o'r comediwyr gorau sydd yn perfformio o gwmpas y DU. Gallwch fod ar yr e-restr gomedi ar www.blackwoodminersinstitute.com neu ein dilyn ni ar Facebook i glywed pwy fydd yn perfformio cyn gynted ag y cânt eu cyhoeddi.*

***CADWCH LE MEWN DIGON O AMSER - MAE POB TOCYN YN CAEL EI WERTHU BOB MIS!***

*TOCYNNAU: **£8.00** O flaen llaw/ **£11.00** Ar y Drws.*

**01495 227206**

## A Christmas Cracker! • Cracer Nadolig!
**7/12 - 10am - 4pm**
*The Winding House • Y Tŷ Weindio*

*Explore Christmas through the ages with this day of festive fun!*

*Ymchwiliwch i'r Nadolig trwy'r oesoedd yn y diwrnod hwn, fydd yn llawn hwyl yr ŵyl!*

**01443 822666**



## Festive Flights of Fancy • Adloniant Arbennig yr Ŵyl
**12 & 19/12 - 6.30pm; 7pm; 7.30pm; 8pm**
*Llancaiach Fawr Manor • Maenordy Llancaiach Fawr*

*Magical and enchanting family sketches Afterwards you will be entertained with magic and puppetry in the Visitors Centre over mulled wine and mince pies (available to buy) and there will be craft activities for the children. Booking required.*

*Dramâu bychain hudol a swynol i'r teulu. Wedyn, byddwch yn cael eich diddanu gan hud a lledrith a phypedwaith yn y Ganolfan Ymwelwyr dros win poeth sbeislyd a thartenni Nadolig (ar gael i'w prynu) a bydd gweithgareddau crefft i'r plant. Mae angen cadw lle.*

**01443 412248**



## Search For Santa • Chwiliwch am Siôn Corn
**12/12 - 6pm - 7.30pm**
*Sirhowy Valley Country Park • Parc Gwledig Cwm Sirhywi*

*You'll need your torch for this exciting night time wander through the woods, looking for clues as we search for Santa. Charge - £3:50 per Child and £ 1:50 for Adults. (This includes hot chocolate, mince pies for the Adults & selection boxes for the Children). Tickets available from Blackwood Miners Institute. Booking ends on 22 November.*

*Byddwch angen tortsh ar gyfer y daith gerdded ganol nos gyffrous hon trwy'r goedwig, gan chwilio am gliwiau wrth i ni drio ffeindio Siôn Corn. Pris - £3:50 y Plentyn a £ 1:50 i Oedolion. (Mae hyn yn cynnwys siocled poeth, tarten Nadolig i'r Oedolion a bocs o siocledi i'r Plant). Tocynnau ar gael o Sefydliad y Glowyr Coed Duon. Rhaid cadw lle cyn 22 Tachwedd.*

**01495 235219**

## Yule Tide Logs • Boncyffion Nadolig
**14/12 - 10.30am - 1pm**
*Parc Cwm Darran • Parc Cwm Darran*

*Yule love making Yule Tide logs! Have a go at creating festive decorations using natural materials. Charge: £2 for the logs. Booking Required.*

*Byddwch wrth eich bodd yn gwneud Boncyffion Nadolig! Rhowch gynnig ar greu addurniadau'r Nadolig trwy ddefnyddio deunyddiau naturiol. Cost: £2 am y boncyffion. Mae angen cadw lle.*

**01443 875557**



## Tudor Treats • Pethau Cywrain Tuduraidd
**14 & 21/12 - 10 - 4pm**
*Llancaiach Fawr Manor • Maenordy Llancaiach Fawr*

*The servants are busy preparing for Christmas. As guests of the Colonel visitors are invited to join in the festivities and make traditional candles, soap balls and pomanders to take home and give as gifts.*

*Mae hi'n 1645 ac mae'r gweision yn brysur yn paratoi at y Nadolig. Fel gwesteion y Cyrnol, bydd ymwelwyr yn cael eu gwahodd i ymuno yn y miri trwy wneud canhwyllau traddodiadol, peli sebon a pherberlenni y gallwch fynd â nhw adref i'w rhoi yn anrhegion.*

**01443 412248**

## River of Light Lantern Workshops • Gweithdai Llusernau Afon yr Oleuni
**30/11, 1/12, 7/12, 8/12, 14/12, 15/12 - 10am - 5pm**
*Caerphilly Leisure Centre • Canolfan Hamdden Caerffili*

*Let your creative side take over and show off your artistic skills by making your very own lantern ready for the big parade on the 19th December. The activity is suitable for all ages offering some free family fun. Free Event.*

*Gadewch i'ch ochr greadigol deyrnasu a dangos eich doniau artistig trwy wneud eich llusern eich hun yn barod ar gyfer yr orymdaith fawr ar 19eg Rhagfyr. Mae'r gweithgaredd hwn yn addas i bobl a phlant o bob oed a bydd yn cynnig hwyl i'r teulu am ddim. Digwyddiad Am Ddim.*

**www.caerphilly.gov.uk/christmas**
**02920 880011**



## River of Light Parade • Gorymdaith Afon yr Oleuni
**19/12 - 6.30pm**
*Caerphilly Town Centre • Canol Tref Caerffili*

*See the streets come to life as hundreds of lanterns cascade through Caerphilly Town Centre accompanied by thunderous samba drumming, dancing, costumed performers and giant sculptures. The spectacular event will come to a magnificent close with a fireworks display above the skies of Caerphilly Castle. Starts at 6:30pm from Caerphilly railway station park and ride. Free Event.*

*Dewch i weld y strydoedd yn dod yn fyw wrth i gannoedd o lusernau raeadru trwy ganol tref Caerffili i gyfeiliant drymio samba, dawnsio, perfformwyr mewn gwisgoedd, a cherfluniau cawraidd. Bydd y digwyddiad ysblennydd hwn yn dod i ddiweddglo godidog gydag arddangosfa dân gwyllt uwch ben Castell Caerffili. Yn dechrau am 6:30pm o safle 'Parcio a Theithio' Gorsaf Drenau Caerffili. Digwyddiad Am Ddim.*


**www.caerphilly.gov.uk/christmas**
**02920 880011**

## Indoor Christmas Market • Marchnad Nadolig Dan Do
**23 & 24 /11 - 10am - 4pm**
*Cwmcarn Forest Drive • Coedwig Cwmcarn*

*Kick start your Christmas shopping at Cwmcarn Forest Drive Visitor centre! This popular market returns to the warmth and comfort of indoors! There are lots of stalls selling unique handmade gifts and foods, at reasonable prices! Free Event.*

*Rhowch hwb ymlaen i'ch siopa Nadolig yng Nghanolfan Ymwelwyr Coedwig Cwmcarn! Mae'r farchnad boblogaidd yn dychwelyd i gynhesrwydd a chysur o dan do! Bydd llawer o stondinau yn gwerthu anrhegion unigryw wedi'u gwneud â llaw, a bwyd, am brisiau rhesymol! Digwyddiad Am Ddim.*

**01495 272001**



## Ystrad Mynach Fayre and Xmas Lights Switch On • Ffair Ystrad Mynach a Chynnau Goleuadau'r Nadolig
**23/11 - 11am-5pm**
*Ystrad Mynach Town Centre • Canol Tref Ystrad Mynach*

*Enjoy crafts and jewellery stall with live choirs, jazz bands and much more. Free Event.*

*Mwynhewch stondinau crefft a gemwaith gyda chorau byw, bandiau jazz a llawer mwy. Digwyddiad Am Ddim.*

## Blackwood Christmas Market • Marchnad Nadolig Coed Duon
**30/11 & 1/12**
**9am-5pm & 10am - 4pm**
*Blackwood Town Centre • Canol Tref Coed Duon*

*Blackwood Christmas Market is now entering its fourth year with the last three year's proving to be a great success. The high street will be filled with food & craft stalls, funfair rides, animal displays, street entertainment, Santa's grotto and donkey's as well as street entertainment. Free Event.*

*Dyma bedwaredd flwyddyn Marchnad Nadolig Coed Duon ac mae'r tair blynedd diwethaf wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Bydd y stryd fawr yn cael ei llenwi â stondinau bwyd a chrefft, reidiau ffair hwyl, arddangosfeydd anifeiliaid, adloniant stryd, asynnod, a hyd yn oed ogof Siôn Corn. Digwyddiad Am Ddim.*

**www.caerphilly.gov.uk/christmas**
**02920 880011**



## Bargoed Christmas Market • Marchnad Nadolig Bargod
**7/12 - 10am - 4pm**
*Bargoed Town Centre • Canol Tref Bargod*

*Located throughout Bargoed High Street, the event will host over 20 traders, a Santa's grotto, traditional Punch & Judy show, children's activities including pottery workshops and some great street theatre. Free Event.*

*Wedi'i leoli ar hyd Stryd Fawr Bargod, bydd y digwyddiad yn cynnwys dros 20 o fasnachwyr, ogof Siôn Corn, sioe Pwnsh a Siwan draddodiadol, gweithgareddau i blant gan gynnwys gweithdai crochenwaith a theatr stryd fendigedig. Digwydiad Am Ddim.*

**www.caerphilly.gov.uk/christmas**
**02920 880011**

## Caerphilly Medieval Christmas Fayre • Ffair Nadolig y Canol Oesoedd Caerffili
**7-8/12 - 9am-5pm & 10am-4pm**
*Caerphilly Town Centre • Canol Tref Caerffili*

*The Caerphilly Medieval Christmas Fayre is now entering its ninth year with last year's event proving to be extremely popular with residents & visitors alike. Caerphilly returns to its days of old with an electric mix of medieval entertainment, food and drink and an abundance of stalls selling unusual Christmas gifts such as medieval replica, traditional crafts, jewellery and Christmas decorations. So experience the sights, sounds and smells of a town and castle preparing for Christmas. Entry into the castle is at a fee, although much of the entertainment around the town is free.*

*Mae Ffair Nadolig y Canol Oesoedd Caerffili ar drothwy ei nawfed flwyddyn, gyda digwyddiad llynedd yn profi ei hunan i fod yn boblogaidd dros ben gyda thrigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae Caerffili yn dychwelyd i'w hen ddyddiau gyda chymysgedd trydanol o adloniant canoloesol, bwyd a diod, a digonedd a stondinau yn gwerthu anrhegion fel atgynhyrchiadau canoloesol, crefftau traddodiadol, gemwaith ac addurniadau Nadolig. Felly, dewch i brofi golygon, synau ac arogleuon tref a chastell yn paratoi at y Nadolig. Mae ffi i'w thalu i gael mynediad i'r Castell, ond mae llawer o'r adloniant o gwmpas y dref am ddim.*

**www.caerphilly.gov.uk/christmas**
**02920 880011**

## Risca Christmas Market & Lantern Parade • Marchnad Nadolig a Gorymdaith Lusernau Rhisga
**14/12 - 1pm-6pm**
*Risca Town Centre • Canol Tref Rhisga*

*Come along and enjoy the Risca Christmas Market and Lantern Parade and pick up some unique Christmas presents for family and friends! Free event.*

*Dewch i fwynhau Marchnad Nadolig a Gorymdaith Lusernau Rhisga, a phrynwch anrhegion Nadolig unigryw i'ch teulu a'ch ffrindiau! Digwydiad Am Ddim.*

**www.caerphilly.gov.uk/christmas**
**02920 880011**

## Community Market • Marchnad Gymunedol
**14/12 - 9am**
*White Rose Information Centre • Canolfan Wybodaeth y Rhosyn Gwyn*

*Come along to the heart of New Tredegar to the thriving heart of the community at the White Rose Information & Resource Centre. There will be market stalls, craft stalls, car-boot & tabletop sale items, hot food & snacks, beer Tent and entertainment. Free Event.*

*Dewch i ganol Tredegar Newydd, i galon ffyniannus y gymuned yng Nghanolfan Wybodaeth ac Adnoddau'r Rhosyn Gwyn. Bydd stondinau marchnad, stondinau crefft, eitemau arwerthiant cist car a phen bwrdd, bwyd poeth a byrbrydau, pabell gwrw ac adloniant. Digwyddiad Am Ddim.*

**Helen Courquin - 01443 878090**

# PROTECTING YOU

**The council's Public Protection team aims to ensure that the county borough is a healthy, safe and fair place for people to live, work & visit.** One of the team's key tasks is to expose and bring before the courts those individuals and businesses we discover acting illegally.

**Below are examples of recent prosecutions:**

# EICH DIOGELU CHI

**Nod tîm Diogelu'r Cyhoedd y cyngor yw sicrhau bod y fwrdeistref sirol yn lle iach, diogel a theg i bobl fyw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef.** Un o brif dasgau'r tîm yw datgelu'r gwir am yr unigolion a'r busnesau hynny sy'n gweithredu'n anghyfreithlon, a'u dwyn gerbron y llys.

**Isod ceir enghreifftiau o erlyniadau diweddar:**

### Trading Standards prosecutions
### Erlyniadau'n ymwneud â safonau masnach

| Defendant | Offence | Court Decision |
|---|---|---|
| Mark Davis trading as Valley Dampproofing and Plastering of Bargoed. | *Carried out damp proofing which was not to professional standard. Failure to give consumer cancellation rights. 4th October 2013 at Newport Magistrates Court.* | 12 Month Community Order, to include 10 days on Substance Misuse Programme, 200 hours unpaid work, £500 costs to the Local Authority and £60 victim surcharge. Fraud Act 2006. Consumer Protection from Unfair Trading Regulations 2008. |
| Anthony Allen Moses Of Aberdare. | *Carried out damp proofing which was not to professional standard. 4th October 2013 at Newport Magistrates Court.* | £600 fine, £1124.75 costs to the Local Authority and £60 victim surcharge. Consumer Protection from Unfair Trading Regulations 2008. |

### Environmental Health prosecutions
### Erlyniadau'n ymwneud ag iechyd yr amgylchedd

| Defendant | Offence | Court Decision |
|---|---|---|
| Miss Janice Thomas. Fair View, Risca. | *Discarding Litter (Cigarette End) At Risca High Street.* | £120 fine, £120 costs, £20 Victim surcharge. Environmental Protection Act 1990 – Sections 87 and 88. |
| Mr Bledar Shehu. George Street, Argoed. | *Discarding Litter (Cigarette End) from a vehicle on Pontygwindy Road, Caerphilly.* | £75 fine, £120 costs, £15 Victim surcharge. Environmental Protection Act 1990 – Sections 87 and 88. |
| Craig Crook of Broadmead, Pontllanfraith. | *Illegally tattooing people at his home address. The case was heard at Caerphilly Magistrates Court on 5th September 2013.* | Ordered to pay a fine of £450, together with £900 in costs and a £20 victim surcharge. Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1982. |

**To view the full list, visit www.caerphilly.gov.uk/prosecutions**
Prosecution results are provided for a limited period to promote the openness of the council's actions to local residents. Information provided must not be reused in any form without the agreement of CCBC.

**Gellir gweld y rhestr yn llawn ar www.caerffili.gov.uk/erlyniadau**
Caiff canlyniadau erlyniadau eu dangos am gyfnod cyfyngedig i ddangos i drigolion lleol bod y llys yn gweithredu mewn modd agored. Ni ddylid ailddefnyddio gwybodaeth mewn unrhyw fodd heb ganiatâd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

# Bin there, done that!

**The council and Gwent Police are keen to offer residents the following simple advice on helping to ensure wheelie bins, food caddies and recycling boxes are appropriately marked and securely stored:**

- Mark all bins with the property number and postcode using permanent marker, paint or weatherproof stickers.
- Make a note of the serial number of the bin. This is stamped into the plastic. It could help trace the bin if it is inadvertently taken into a neighbour's property.
- If possible, store bins/boxes/caddies in a secure area of the property when they are not out for collection.
- Return bins/boxes/caddies back onto your property as soon as possible after collection.

Bins can be repaired, and do not necessarily need to be replaced if damaged. To report discarded bins for pick up, or to request a repair to your bin, please call **01443 866 533**.



For more news visit www.caerphilly.gov.uk/news • Am fwy o newyddion ymwelwch â www.caerffili.gov.uk/newyddion